PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 6 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gordon a Simmons.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

43 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

44 : GWASANAETHAU CYFLOGAETH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai) a Helen Evans (Rheolwr Gweithredol – Cyngor a Budd-daliadau) i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i adolygu'r gweithredu ar newidiadau i'r Gwasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi craffu ar y newidiadau arfaethedig hyn y llynedd a'u bod wedi'u rhoi ar waith ym mis Ebrill, ar ôl i Gymunedau yn Gyntaf dod i ben a'r newidiadau i'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cyflogadwyedd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn falch o gyflwyno'r cyflwyniad ar ddatblygiad a llwyddiannau'r gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith newydd. Gyda dyfodiad y Porth, mae'r gwasanaeth newydd wedi llwyddo i symleiddio mynediad i bawb sydd angen cymorth cyflogadwyedd. Gan fod cymaint yn cael ei adrodd am dlodi yn y gwaith, roedd yn wych gweld bod gwaith yn cael ei wneud hefyd i uwchsgilio'r rhai sydd eisoes mewn gwaith i chwilio am gyflogaeth â chyflogau gwell.

Roedd yr Aelod Cabinet yn hapus i ddweud bod y tîm ar hyn o bryd yn cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau a bennwyd gan arianwyr ar gyfer y nifer y bobl sy'n cael eu helpu i gael gwaith. Mae'r astudiaethau achos yn y cyflwyniad yn wir yn amlygu'r gwaith rhagorol y mae'r tîm yn ei wneud ac yn dangos sut y maent yn diwallu anghenion rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Wasanaethau Cyflogaeth yng Nghaerdydd ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau;

Cymeradwyodd yr Aelodau y cyflwyniad a'r gwaith a wnaed gan swyddogion.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ysgol Fusnes Naid a nifer y busnesau a ddechreuwyd ar ôl hynny ond roeddent yn ymwybodol bod bwlch yn aml wedyn lle mae angen cymorth a gofynnwyd pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei roi er mwyn sicrhau bod y busnesau'n parhau i fasnachu, tyfu a dechrau cyflogi pobl. Dywedodd swyddogion fod yna fforymau ar gyfer cefnogaeth ac roedd yn bwysig cryfhau'r cysylltiadau gyda Busnes mewn Ffocws a Busnes Cymru.

Nododd yr Aelodau bod nifer y cyflogwyr sydd wedi cael cymorth yn Chwarteri 1 a 2 yr un fath sef 87. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn gywir a'u bod yn mynd y tu hwnt i'r targedau yma ond yn dal i weithio gyda mwy o gyflogwyr wrth symud ymlaen.

Nododd yr Aelodau fod llawer o sgiliau o fewn y Cyngor. Gan gyfeirio at y cyrsiau y mae'r Cyngor yn eu rhedeg, holodd yr Aelodau a oedd cyfle masnachol i godi tâl am y cyrsiau hyn a defnyddio'r incwm hwnnw i dyfu, datblygu a diogelu'r tîm. Dywedodd swyddogion fod hyn eisoes wedi'i wneud a nododd yr Aelodau fod angen hysbysebu hyn yn fwy i'r gymuned fusnes.

Trafododd yr Aelodau y gwaith sy'n cael ei wneud gyda phobl ddigartref a nodwyd bod 39 o bobl wedi'u cynnwys. Dywedodd swyddogion fod y 39 yn cyfeirio'n benodol at bobl ifanc agored i niwed sy'n ddigartref mewn hosteli. Ychwanegodd swyddogion mai dyma'r cyfan y gallant eu gwneud ar hyn o bryd gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Nododd yr Aelodau leoliadau'r Clwb Swyddi a gofynnwyd a oedd unrhyw rannau o'r Ddinas nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n dda. Dywedodd swyddogion eu bod yn bennaf dros y Ddinas gyfan ond bod ffocws ar Arc Ddeheuol y ddinas. Dywedodd swyddogion eu bod yn adolygu'r lleoliadau hyn yn rheolaidd a'u bod yn agored i awgrymiadau ar gyfer unrhyw leoliadau eraill pe byddai eu hangen.

Nododd yr Aelodau y nifer o alwadau am gyngor a wnaed a gofynnwyd sut y byddai cynnydd sydyn yn y galw yn cael ei reoli. Eglurodd swyddogion y byddent yn monitro'r llinell gyngor yn ôl nifer y galwadau a faint o amser y mae'n ei gymryd i ateb y galwadau. Byddai hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu a chaiff adnoddau eu symud i'r ardal pan fyddai angen. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod bwriad i gysylltu Caerdydd ar Waith gyda'r gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith i'w ehangu ac i ddefnyddio ffioedd yr asiantaeth i sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar linellau'r gyllideb ac eglurwyd bod yr un llinell yn cyfeirio at swydd lle mae'r unigolyn wedi gadael fel diswyddiad gwirfoddol a bod y llinell arall yn cyfeirio at y costau rheoli a ddefnyddiwyd i ariannu'r swyddi presennol. Ychwanegodd y swyddogion fod yna fygythiadau o ran ariannu a'i bod yn bwysig sefydlu ffordd o allu gwneud cais am arian fel sefydlu cwmni neu elusen hyd braich.

Pan ofynnwyd sut y bydd y gwasanaeth yn ymdopi â'r twf disgwyliedig a'r galw cynyddol, esboniodd swyddogion os yw’r galw yno eisoes a gyda hysbysebu yn cynyddu bydd mwy o alw, byddant yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ac yn gwella sgiliau staff fel y bo angen ac yn symud adnoddau i'r gwasanaeth. Ychwanegwyd bod angen llwythi achosion bach wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed gan fod cymorth dwys hefyd yn ddwys o ran adnoddau. Byddai hyrwyddo'r cyrsiau hyfforddi i fusnesau hefyd, gobeithio, yn dod â rhywfaint o incwm.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 45 : PAPUR GWYRDD DATBLYGU ECONOMAIDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway (yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu) a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu) i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Blaengynllun presennol ar gyfer y Cabinet yn dangos Adroddiad ar y Papur Gwyn ar Ddatblygu Economaidd i'w gyflwyno i'r Cabinet ar 13 Rhagfyr 2018. Cynhwyswyd yr eitem hon felly er mwyn gallu craffu ar yr adroddiad hwn cyn gwneud penderfyniad. Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad bellach wedi cael ei dynnu'n ôl ac y bydd adroddiad yn cael ei drefnu i'w gyflwyno i'r Cabinet y flwyddyn nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet esbonio'r sefyllfa o ran y ffordd y bwriedir mynd â'r Papur Gwyn ar Ddatblygu Economaidd drwodd i'r cyfnod penderfynu.

Eglurodd yr Aelod Cabinet y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fyddai'n ceisio awdurdod i gyhoeddi Papur Gwyn i'w drafod yn y Cyngor ym mis Ionawr. Ychwanegodd, ar gyfer datganiadau Polisi Mawr, ei fod yn ystyried y dylai'r Cyngor gael y cyfle cyntaf i drafod hyn gan ei fod yn caniatáu i'r holl gynghorwyr gymryd rhan yn y drafodaeth honno a dylanwadu ar gyfeiriad y polisi hwnnw. Roedd o'r farn y dylid ceisio barn y Cyngor ym mis Ionawr, a byddai'r Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn cael cyfle i graffu arno a myfyrio ar ddadl y Cyngor, yna cyfleu'r farn craffu pan gaiff ei gymryd i'r Cabinet ym mis Chwefror; fel hynny gall y Cabinet wneud penderfyniad llawn a gwybodus ar y Papur Gwyn a sut i fwrw ymlaen. Ychwanegodd nad yw'r cyfansoddiad ar hyn o bryd yn cyfeirio at brosesau ar gyfer Papurau Gwyrdd a Gwyn ond fel Cadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad mae hyn yn rhywbeth y byddai'n edrych arno wrth symud ymlaen. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gwarantu cyfle i'r Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant i graffu ar y Papur Gwyn.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Croesawodd yr Aelodau y newid i wneud cyfarfodydd y Cyngor yn fwy perthnasol.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 46 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr ohebiaeth, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu – Bargen Ddinesig Rhanbarth y Brifddinas ; cyfle i drafod Rhaglen Waith ddiweddaraf 2018/19 y Pwyllgor a chyfle i'r Aelodau drafod blaengynllun gwaith y Pwyllgor o Ionawr i Ebrill 2019.

Rhoddwyd crynodeb o ohebiaeth a oedd yn weddill i'r Aelodau.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, bod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael ei dalu gan Fargen Ddinesig Rhanbarth y Brifddinas i reoli'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, wedi sefydlu'r sesiwn hyfforddi gyntaf a'r cyfarfod swyddogol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2018. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu fod yr Aelodau wedi cael hyfforddiant ar lefel uchel iawn a bod mwy o hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gwestiynu craffu ac ati. Roedd rhaglen waith, cynllun busnes ac ymweliad â'r cyfleuster Lled-Ddargludyddion yng Nghasnewydd oll wedi'u cynllunio. Nodwyd bod rôl o hyd i Bwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn hyn ac na fyddai gwaith yn cael ei ddyblygu. Ystyriodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor edrych ar gofnodion y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a gweld a oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu tynnu allan.

Rhoddwyd trosolwg o'r rhaglen waith i'r Aelodau a nodwyd bod hyn yn parhau i fod yn hyblyg iawn; trafododd yr Aelodau y materion sydd i'w hystyried ym mhob cyfarfod hyd at fis Mai 2019.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Ymchwiliad i Ddigwyddiadau wedi cychwyn a bod angen mwy o gyfarfodydd; byddai'r adroddiad yn barod ar gyfer y cyfarfod Craffu ar y gyllideb ym mis Chwefror 2019.

Cytunodd yr Aelodau y dylid cyhoeddi'r Flaenraglen Waith Graffu ar y wefan.

47 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni ddaeth dim i law.

48 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd y byddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau a fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

49 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

17 Ionawr 2019 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 pm